# Pam mae mawndiroedd yn bwysig?

**Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd** 15 – 30 munud

**Lleoliad** Dan do neu yn yr awyr agored

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn rhannu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar fawndiroedd a'r amryw ffyrdd y maen nhw o fudd i ni.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Y Dyniaethau |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Egluro rhai o'r rhesymau pam mae mawndiroedd yn bwysig.
- Disgrifio pa un o'r rhesymau hynny sydd bwysicaf iddyn nhw.
- Deall bod mawndiroedd yn dod â nifer o wahanol fathau o fuddion i bobl ac i'r amgylchedd.

## Offer ac adnoddau a awgrymir

- Cardiau adnoddau – Pam mae mawndiroedd yn bwysig?

## Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

Gellir addasu'r gweithgaredd a'i wneud mewn gwahanol ffyrdd (gweler y pwyntiau bwled). Gellir ei ddefnyddio hefyd i gyflwyno neu atgyfnerthu cynnwys dysgu am fawndiroedd, am newid hinsawdd ac am gynaliadwyedd.

- Gofynnwch i'r grŵp pam mae mawndiroedd yn bwysig a thrafodwch eu syniadau. A allan nhw greu eu cardiau adnoddau eu hunain?
- Yn annibynnol neu mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dysgwyr roi'r cardiau adnoddau mewn trefn, yn ôl sut mae mawndiroedd o fudd, yn eu barn nhw – o'r mwyaf i'r lleiaf pwysig.
- Gyda grwpiau mawr, fe allech chi roi cerdyn i bob dysgwr. Gall y dysgwyr eu trefnu eu hunain fel eu bod yn sefyll mewn rhes o'r buddion mwyaf pwysig i'r lleiaf pwysig. Os oes gennych chi grwpiau lluosog, gallan nhw wedyn gymharu a thrafod beth sy'n debyg ac yn wahanol rhwng penderfyniadau'r grwpiau.
- Gallai'r dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau bach i roi'r cardiau adnoddau mewn trefn gan ddefnyddio'r dull diemwnt.

Nid oes atebion cywir nac anghywir. Nod y gweithgaredd yw annog trafodaeth ac i'r myfyrwyr ddysgu bod mawndiroedd o fudd mewn llawer o wahanol ffyrdd i bobl a'r amgylchedd.

## Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Yn eich barn chi, beth yw'r budd pwysicaf y mae mawndiroedd yn ei ddarparu?
- Beth allwch chi ei wneud ar lefel bersonol i helpu i warchod mawndiroedd?

## Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Tynnwch rai o'r cardiau o'r set.
- Cwblhewch y gweithgaredd fel grŵp cyfan.
- Archwiliwch rai o'r buddion eraill y mae mawndiroedd yn eu darparu ac ychwanegu at y set o gardiau.

## Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

- Lluniwch siartiau a graffiau i ddangos pa reswm oedd y mwyaf poblogaidd gyda'r dysgwyr e.e. lluniwch siart bar dynol: gosodwch y cardiau ar lawr a gofyn i'r dysgwyr sefyll o flaen eu cerdyn dewisol mewn llinellau syth i wneud y 'bariau'.
- Defnyddiwch gelf naturiol i ddangos y ffordd y mae mawndiroedd yn bwysig.

## Adnoddau eraill a awgrymir

- Cynllun gweithgaredd – Cwis mawndiroedd
- Cynllun gweithgaredd - Sut mae mawn yn ffurfio?

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Ewch i: **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch â:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**

**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government